Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 464 EBRILL 2024 | AM DDIM

## NOSON MEIC AGORED ABERTAWE DROS EWROP

- RHIANNON BARRAR


Mae Abertawe dros Ewrop yn chwilio am berfformwyr iaith Gymraeg fel rhan o'u noson meic agored ar 9 fed o Fai yn Theatr y Volcano, Stryd Fawr, Abertawe SA1 5AA, 7yh i 10yh .

Mae'r tocynnau am ddim ond mae'n rhaid cofrestru i fynychu neu gymryd ran fel perfformwyr er mwyn i ni reoli niferoedd – ebostiwch swansea@walesforeurope.org

Bydd lluniaeth a bar. Trefnir y dygwyddiad hwn i nodi Dydd Ewrop sy'n cael ei gynnal pob blwyddyn i ddathlu heddwch ac undod yn Ewrop. Cliciwch yma am fwy o wybodaeth am Ddydd Ewrop.

## EISTEDDFOD GADEIRIOL YR HENDY

Eisteddfod Gadeiriol yr Hendy - Sadwrn 11 Mai. Cystadlaethau i blant lleol, cystadlaethau agored a llenyddol. Dewch i gefnogi a chystadlu!




## ANRHYDEDDU CADEIRYDD AM HANNER CANRIF O WASANAETH

- BETHAN MAIR

Yng nghyfarfod blynyddol Cylch Cinio Glannau Llwchwr, a gynhaliwyd nos Fercher 17 Ebrill, derbyniodd Donald Treharne, oedd yn dod i ddiwedd ei flwyddyn fel Cadeirydd, blât unigryw i nodi'i gyfnod yn y Gadair, a hefyd i anrhydeddu'r ffaith mai ef oedd Cadeirydd cyntaf oll y Cylch ym mlwyddyn ei sefydlu, hanner canrif yn ôl yn 1973.

Lluniwyd y plât arbennig gan Grochendy Gwili, ac i gasglwr llestri nodedig fel Don, sy'n berchen ar sawl darn o grochenwaith pwysig, roedd yn rhodd ddelfrydol.

Ar ddiwedd y cyfarfod, trosglwyddwyd awenau'r Cylch i'r cadeirydd newydd, Bethan Mair, a welir yn y llun gyda Don a'r plât.

Meddai Don: "Doeddwn i ddim yn disgwyl hyn o gwbl. Diolch o galon am rodd mor addas." Ychwanegodd Bethan: "Braint yw cael dod i'r Gadair; gobeithio y gall y Cylch fynd o nerth i nerth dros yr hanner canrif nesaf!"

Bydd tymor newydd y Cylch yn dechrau ar nos Fercher 18 Medi 2024, am 7pm yng Nghlwb Rygbi Pontarddulais. Mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno. Cysylltwch â Bethan ar 07779 102224 neu geiriau@gmail.com am ragor o fanylion.



## MARW'R PARCH IVOR REES

-HEINI GRUFFUDD

Bu farw'r Parch Ivor Rees, Sgeti, ar ôl salwch byr.

Brodor o'r Rhondda oedd Ivor. Ganed e yn Nhreherbert, yn fab i lowr. Ar ôl mynychu ysgolion Penyrenglyn ac ysgol Sir y Porth, astudiodd ym Mhrifysgol Cymru Abertawe, a'r Coleg Coffa yn Aberhonddu, lle roedd Dr Pennar Davies yn bennaeth.



Cafodd Ivor ei ordeinio yn 1956 a gwasanaethodd mewn nifer o eglwysi o dan ofal Annibynwyr Cymru, ac Eglwysi diwygiedig unedig, gan gynnwys Port Talbot, yna Clapham, lle y cafodd gyfnod dedwydd iawn. Bu hefyd yn gwasanaethu yn Ewell, Surrey, Trefansel, Abertawe a Bamford.

Yn gynnar yn ei yrfa priododd â Delyth, merch o ddyffryn Afan, a chawsant briodas hir a hapus tan iddi farw rai blynyddoedd yn ôl. Mae ganddynt fab a merch, a hithau'n gweinidogaethu.

Un o'r digwyddiadau a ysgydwodd Ivor oedd trychineb Aberfan, 21 Hydref 1966. Gyda'r diweddar Barch Derwyn Morris Jones bu'n ceisio rhoi cymorth i'r trigolion yn dilyn y drychineb, a threfnu'r angladd mawr. Bu'n cysylltu â teuluoedd yn eu galar, gan gofrestru enwau a manylion y rhai a laddwyd. Mae modd gweld ei adroddiad ar hyn ar wefan y BBC: Lle oeddwn i: Angladd Aberfan - BBC Cymru Fyw

Roedd Ivor yn ymwybodol iawn o'i wreiddiau, ac roedd yn genedlaetholwr Cymreig pybyr. Ymddiddorai yn yr iaith a'i llenyddiaeth, ac yng ngwleidyddiaeth Cymru.

Ymddeolodd Ivor a Delyth i Abertawe yn 1996, a dod yn rhan o fywyd Cymraeg a bywyd diwylliedig y ddinas. Daliodd ati i bregethu nes iddo fod yn 90 oed.

Yn y cyfnod hwn yn Abertawe, ymddiddorodd ymhellach mewn gwleidyddiaeth, a chyhoeddi sawl llyfr ar wleidyddiaeth Cymru, gan gynnwys manylion yr holl ymgeiswyr seneddol. Cyhoeddodd lyfr ar Pennar Davies, ar Sentars Clapham, ac ar y Parch Daliel Hughes.

Cyhoeddodd ysgrifau niferus ar wleidyddiaeth, crefydd a hanes mewn amryw gylchgronau, gan gynnwys Minerva, trafodion Hanes Lleol Morgannwg, Llafur, a thrafodion Bedyddwyr Cymru, a siroedd Gwent, Morgannwg a Chaerfyrddin.

Roedd ef a Delyth yn aelodau selog o ddosbarthiadau llenyddiaeth Gymraeg yn Abertawe, ac yn aelodau brwd o wahanol gymdeithasau yn y ddinas, gan gynnwys Sefydliad Brenhinol De Cymru, a Phrifysgol y Trydydd Oed. Roedd y ddau hefyd yn weithgar iawn yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig Sgeti.

Roedd y ddau'n hoff o deithio. Cafodd ymweld ag Israel, a bu mewn cyswllt agos â Phalestiniaid a ddioddefodd orthrwm gwladwriaeth Israel.

Bydd yr angladd ddydd Mercher, ym Margam am 12.45 a chynhellir cyfarfod coffa am 2.15 yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig Sgeti.

## CYTUNO AR Y CYFAN YNG NGHYLCH TRAFOD LLYFRAU TŶ TAWE

-ELIN MEEK

Mwynhaodd yr aelodau i gyd dair nofel gyntaf 2024, a doedd dim llawer o wahaniaeth barn, sy'n anarferol iawn. Nofel dditectif gyffrous gan yr awdur poblogaidd Alun Davies yw Pwy yw Moses John? (Y Lolfa, £9.99). Mae'r ditectif Moses John yn dihuno mewn ysbyty heb unrhyw gof am y saith mlynedd diwethaf. Wrth edrych yn ôl ar achos y bu'n gyfrifol amdano, mae'n dysgu llawer am yr achos ac amdano ef ei hun hefyd. Llwyddodd i ddenu diddordeb y darllenwyr hyd y dudalen olaf a chael marciau uchel gan bawb.

Awdur newydd yw Simon Chandler sydd wedi dysgu'r Gymraeg yn gymharol ddiweddar. Canmolwyd ei nofel Llygad Dieithryn (Gwasg Carreg Gwalch, £8.50) gan bawb am gyflwyno agwedd wahanol ar hanes Cymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a hefyd am gynnig cipolwg ar safbwynt person ifanc sydd newydd ddysgu'r Gymraeg ac yn rhyfeddu at yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd y stori'n symud rhwng cyfnod y Rhyfel Mawr a'r presennol, gyda chysylltiadau rhwng Cymru a'r Almaen yn flaenllaw.

Astudiodd nofelydd mis Mawrth, sef Mari George, yn adran Gymraeg Prifysgol Abertawe, felly rhaid oedd trafod ei nofel gyntaf i oedolion, Sut i ddofi corryn, (Sebra, £8.99). Cafodd y rhan fwyaf flas mawr ar hon, gyda rhai yn ei thrafod o brofiad personol iawn. Gwelodd ambell un fod y prif gymeriad yn wynebu heriau fel arwr yn chwedlau'r Mabinogi, er enghraifft, gyda rhwystrau i'w hwynebu cyn cyrraedd y nod (chwilio am feddyginiaeth i wella ei gŵr). Mae'r naratif yn symud rhwng Cymru a Guatemala, y gorffennol a'r presennol. Fydd neb yn edrych ar gorynnod yn yr un ffordd eto, mae'n siŵr.

Roedd y rhan fwyaf wedi mwynhau Darogangan Siân Llywelyn (Gwasg Carreg Gwalch, £8.50), nofel ag elfennau goruwchnaturiol gyda rhai digwyddiadau a gwrthrychau hanesyddol yn gefndir iddi. Mae rhai o asiantau DAROGAN yn ymchwilio i ddigwyddiadau anarferol ac yn gweld nad o'r tu allan yn unig mae'r bygythiad.

Nofel sy'n symud yn gyflym, gyda'i Chymreictod yn gwneud iddi fod yn gredadwy iawn. Er nad oedd at ddant pawb, roedd pawb yn cytuno y dylen ni ddarllen llyfrau amrywiol na fydden ni'n eu dewis fel arfer, gyda rhai'n cael siom o'r ochr orau wrth wneud hynny.

Llyfrau a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf wedyn fydd:
13 Mai Porth, Luned Aaron, Y Lolfa, £8.99 (tua 120 tudalen)
10 Mehefin Pen-blwydd Hapus? Ffion Emlyn, Y Lolfa, £9.99 (176 tudalen)
9 Medi Gobaith Mawr y Ganrif, Robat Gruffudd, Y Lolfa, £9.99 (253 tudalen)
14 Hydref enillydd Y Fedal Ryddiaith, Eisteddfod Rhondda Cynon Taf.
11 Tachwedd enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen, Eisteddfod Rhondda Cynon Taf.

Croeso i unrhyw un sy'n mwynhau darllen llyfrau Cymraeg. Mae gennym sawl aelod sydd wedi dysgu Cymraeg hyd at lefel Uwch. Cysylltwch â Siop Tŷ Tawe (siop@sioptytawe.co.uk01792 456856) i gael rhagor o fanylion.
Mae'r llyfrau hyn i gyd ar gael yn Siop Tŷ Tawe, gyda gostyngiad o 10% i aelodau'r Cylch Trafod.

## CYNGOR CYMUNED CILÂ YN ESTYN ALLAN

-CYNGHORWYR SARAH GEE A RHIANNON BARRAR, CYNGOR CYMUNED CILÂ

Mewn ymgais i wneud ei weithgareddau yn fwy cynrychioliadol o fuddiannau ei gymuned, gwahoddodd Cyngor Cymuned Cilâ amrywiaeth o sefydliadau yn Abertawe i gyfarfod yn Neuadd Gymunedol Sant Hilari, Cilâ ar Chwefror 22ain. Y bwriad oedd rhannu gwybodaeth am rôl y Cyngor Cymuned a'r math o weithgareddau y mae'n eu cynnig ar hyn o bryd i drigolion Cilâ; ehangu cyfranogiad yn ei ddigwyddiadau; meithrin perthnasoedd gwaith agosach ac archwilio cyfleoedd i gydweithio. Estynnwyd gwahoddiadau hefyd i'w cynghorau cymuned 'cymydog agosaf' i ymuno â'r cyfarfod a 'gwrando i mewn'. Gwahoddwyd Mosg Sgeti i fynychu'r cyfarfod ond ni allent anfon cynrychiolydd ac felly cynhaliwyd cyfarfod ar wahân gyda nhw ar Fawrth 6ed.

<u>Cefndir</u>

Roedd y fenter hon yn ffrwyth hedyn o syniad a blannwyd gan un o gynrychiolwyr ieuenctid y Cyngor Cymuned y llynedd. Gan adlewyrchu ei ddiddordeb ei hun yn y maes hwn, awgrymodd y dylai'r Cyngor Cymuned ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gynllunio ei weithgareddau ac estyn allan i sefydliadau fel Dinas Noddfa Abertawe. Arweiniodd hyn i'r Cyngor Cymuned fyfyrio ar ei atebolrwydd i bobl leol a'i ddyletswydd i wneud hynny cynrychioli buddiannau gwahanol rannau o'r gymuned yn gyfartal. Y llynedd mabwysiadodd y Cyngor Cymuned Ddatganiad Polisi Cydraddoldeb syml yn nodi ei werthoedd a'i egwyddorion gan nodi:

"Rydym yn cydnabod bod rhai unigolion, grwpiau a chymunedau yn fwy tebygol o wynebu gwahaniaethu, aflonyddu ac allgáu mewn cymdeithas – a gall hynny ddigwydd yn anfwriadol. Fel cyngor cymuned rydym yn cefnogi'r uchelgais ehangach o sicrhau bod pawb yn ein cymuned yn cael cyfleoedd sydd ar gael iddynt, yn cael eu trin yn deg ac yn cael eu gwneud i deimlo fel eu bod perthyn."

<u>Neuadd Gymuned Sant Hilary</u>

Mynychwyd y cyfarfod yn St Hilary's gan bum cynghorydd KCC a dau gynghorydd cymuned o'r Crwys. Roedd 11 arall yn bresennol yn cynrychioli ystod o asiantaethau – Capel Annibynwyr Ebeneser; Menter Iaith Abertawe; Canolfan y Byddar Abertawe a Chlwb Ieuenctid Talking Hands; Cymorth Iechyd Meddwl BAME Cymru; Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu; Cydlynydd Ardal Leol, Dinas a Chyngor Abertawe; Elusen Cyfeillion a Chymdogion; Rhagnodwr Cymdeithasol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA); a Chapel Siloam. Mynychodd y Cyng Louise Gibbard ran o'r cyfarfod hefyd.

Daeth yn amlwg ar unwaith fod angen digwyddiadau rhwydweithio rheolaidd fel y rhain ar gyfer sefydliadau cymunedol yng Nghilâ a'r angen am gyfeiriadur lleol a fyddai'n ymddangos yn ddefnyddiol i'r ddwy asiantaeth ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Roedd hon yn thema glir gyda chyfranogwyr yn adrodd eu bod yn aml yn cael eu holi ynghylch ble i ddod o hyd i wybodaeth am 'beth sydd ymlaen' ar lefel leol o amgylch Cilâ a Dyfnant – nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd. Mae gan ein Cydlynydd Ardal Leol a PCSOs wybodaeth dda am yr hyn sydd ar gael.

Bu peth trafodaeth ynglŷn â sut i estyn allan i gymunedau a nodwyd bod lleoliad yn bwysig oherwydd efallai nad yw pawb yn teimlo'n gyfforddus mewn eglwysi, ysgolion neu adeiladau cyhoeddus sy'n gallu teimlo'n frawychus – mae mannau agored a pharciau yn lle niwtral i gyfarfod.

Amlygwyd absenoldeb cynllun trafnidiaeth gymunedol fel mater allweddol. Mae trafnidiaeth yn rhwystr i nifer o bobl leol sy'n ynysig ac sydd heb fynediad at gar/yn methu â gyrru ac yn methu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn effeithio ar y rhai ar incwm isel sy'n fregus neu'n anabl. Mae CGGA yn cynnal fforwm sy'n ystyried atebion posibl ar draws Abertawe gan fod hwn yn fater ehangach.

<u>Mosg Sgeti</u>

Cyfarfu pedwar cynghorydd KCC â phum cynrychiolydd o'r Mosg gan gynnwys Imam ac aelodau o bwyllgor rheoli'r Mosg. Cynhaliodd y Mosg y cyfarfod yn garedig.

Rhannodd aelodau'r Mosg wybodaeth am eu cenhadaeth a'u rhaglenni cymunedol trawiadol. Y Mosg yw'r ail fwyaf yn y sir ac mae'r aelodau'n deillio'n bennaf o Sgeti a Chilâ. Yn ogystal â neuaddau gweddïo mae'r Mosg yn cynnwys neuadd fawr amlbwrpas ac ystafell gyfarfod. Yn greiddiol i genhadaeth y Mosg mae ymrwymiad dwfn i uno cymunedau amrywiol a chydweithio er lles pawb. Anogir y gymuned ehangach i ymuno mewn gweithgareddau a dathliadau yn y Mosg ac mae'r rhain yn cynnwys darparu lolfa de/canolfan gynnes i 50+; clwb ieuenctid, diwrnodau hwyl a gweithgareddau gwyliau; ymweliadau ysgol, allgymorth a mentrau rhyng-ffydd i fynd i'r afael â chamsyniadau am Islam; partneru â'r Brifysgol. Mae llawer o ddigwyddiadau yn darparu bwyd poeth ac yn cael eu mynychu'n dda gan y gymuned nad yw'n Fwslimaidd. Nododd aelodau'r Mosg y gallant godi arian ar gyfer teuluoedd mewn argyfwng waeth beth fo'u ffydd a gwnaethant hynny'n ddiweddar ar gyfer teulu West Cross a ddioddefodd dân mewn tŷ. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn awyddus i ddatblygu mentrau amgylcheddol yn y dyfodol.

Roedd aelodau'r Mosg yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â KCC a nodwyd cyfleoedd i gydweithio:

- Byddai KCC a Mosg Sgeti yn hyrwyddo digwyddiadau ei gilydd ac yn croesawu pawb sy'n byw yng Nghilâ.
- Byddai aelodau'r Mosg yn croesawu lledaenu gwybodaeth sy'n codi ymwybyddiaeth o gyfnodau o ymprydio ac amseroedd gweddïo.
- KCC i rannu gwybodaeth am swyddi gweigion cynghorwyr a chynrychiolwyr ieuenctid.
- Mae potensial ar gyfer cydweithio wrth gynnal dathliad o amrywiaeth ddiwylliannol.

Y Ffordd Ymlaen

Roedd Cyngor Cymuned Cilâ wrth ei fodd â'r ymateb cadarnhaol i'r cyfarfodydd a gynhaliwyd a bydd yn bwrw ymlaen ag argymhellion sy'n codi o'r drafodaeth, gan gynnwys yr angen am gyfeiriadur lleol o weithgareddau a chynnal digwyddiad rhwydweithio blynyddol ar gyfer sefydliadau lleol sy'n cwmpasu Cilâ a chynghorau cymuned cyfagos. Mae'n gyffrous am y posibilrwydd o gydweithio â Mosg Sgeti i gynnal dathliad o amrywiaeth ddiwylliannol.

## YSGOLORIAETHAU I AELODAU CHWECHED BRYN TAWE

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau i griw o fl 13 sydd wedi ennill ysgoloriaethau i Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Caerdydd yn ddiweddar. Mae Grace Browne wedi ennill Ysgoloriaeth Meddyliau Creadigol Prifysgol Caerdydd a bydd hi'n astudio Cymraeg a Gwleidyddiaeth. Mae Jonah Eccott, Jacob Elsey, William Harris, Daisy Morris, Sonny Tregembo ac Olivia Snell wedi ennill ysgoloriaethau amrywiol i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae Jonah yn mynd i astudio Daeryddiaeth a Jacob yn mynd i astudio Mathemateg. Bydd William yn mynd i astudio Hanes, a Daisy ar ei ffordd i astudio Bioleg Dynol ac Iechyd. Bydd Sonny'n astudio Swoleg ac Olivia yn mynd i astudio Cymraeg. Bydd y saith ohonyn nhw yn dechrau ar eu cyrsiau ym mis Medi. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonyn nhw!







## MYND AM Y MILIWN!

-RHODRI EVANS, YSGOL GYFUN GŴYR

Ar y 18fed o Fawrth, cymrodd griw o ddysgwyr Blwyddyn 10 Ysgol Gyfun Gwyr ran yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Rhwydwaith Seren. Cynhaliwyd y digwyddiad yn yr Orendy godidog ym Mharc Margam.

Fel rhan o'r gystadleuaeth, bu disgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn ymchwilio i sut allai Cymru fwrw targed y Llywodraeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Wedi ymchwilio, roeddent yn gorfod cyflwyno'u gweledigaeth a'u syniadau o sut ellir cyrraedd y targed hwnnw gerbron panel o feirniaid, yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru.

Ffocysodd dysgwyr Ysgol Gyfun Gwyr ar bwysigrwydd hybu a hyrwyddo addysg Gymraeg, gan bwysleisio'r angen am fwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roeddent wedi annog Llywodraeth Cymru i sicrhau fod pob ysgol newydd yn rhai cyfrwng Cymraeg, yn ogystal a mynnu bod Awdurdodau Lleol yn blaengynllunio er mwyn ateb y galw cynyddol am addysg Gymraeg. Nodwyd hefyd y dylid darparu mynediad at wefannau dysgu Cymraeg, fel Say Something in Welsh, yn rhad ac am ddim er mwyn helpu gyda'r frwydr dros yr iaith.

Bu'r disgyblion yn llwyddiannus gyda'u cyflwyniad, gan gipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i Orion, Thomas, Steffan, Genova-Rose ac Oliver am eu gweledigaeth a'u perfformiadau graenus.



## SIOE NEWYDD - FFENAST SIOP

Theatr Bara Caws yn cyflwyno... Ffenast Siop
Sioe un ddynes am Delyth yn ffeindio ei ffordd mewn bywyd yn sgil y menopos. Chwerthin, harthio, edliw a cholli deigryn - mi gewch chi'r cyfan.
"Ma' menopos 'di rhoi sbectol o wirionedd yn sownd ar 'y nhrwyn i, jysd weithia ma' hin stemio."
Ymunwch a ni ar y daith arbennig hon, ac mae croeso i bawb, achos nid mater i ferched yn unig ydi'r menopos.


Nos Lun/Mon, 20.05
Forge Fach, Clydach, SA6 5EJ

Tocynnau: www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe










## CLWB CERDDORIAETH


Mae'r cylch nesaf o'r Clwb Cerddoriaeth wedi dechrau! Dere draw i ddysgu sut i gyfansoddi a pherfformio dy ganeuon dy hun!
The next sessions of the Clwb Cerddoriaeth have started! Come along to learn how to compose and perform your own songs!
Dyddiadau 24/4, 01/5, 08/5, 15/5, 22/5

Tŷ Tawe
17:30 - 18:30
AM DDIM/FREE

## TAITH GERDDED

Dyma daith gerdded a drefnwyd gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot. Ymunwch a Geraint Roberts am daith cerdded ar hyd y gamlas o Clydach i Pontardawe. Croeso i siaradwyr newydd.
10/05, 10:30am
Cyfarfod ym Mharc Coed Gwilym




## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

03.05 - Pys Melyn (Tŷ Tawe)
17.05 - Tara Bandito + Ynys (The Bunkhouse)
08.06 - Gŵyl Tawe (Amgueddfa'r Glannau)
09.06 - Parti Cloi Gŵyl Tawe: Melin Melyn (The Bunkhouse)










Tocynnau:www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Ebrill.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Mai erbyn Mai 15fed trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

08.06.24

ABERTAWE

# GŴYL TAWE

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU
NATIONAL WATERFRONT MUSEUM
10:00–21:00

BITW · BREICHIAU HIR

CI GOFOD · HMS MORRIS

KIM HON · MELLT

N'FAMADY KOUYATÉ

PARISA FOULADI · WORLDCUB

PARTI CLOI: **MELIN MELYN**
THE BUNKHOUSE NOS SUL 09.6.24 / £10

YSGOLION ABERTAWE

FAMILIA DE LA NOCHE
(SIOE THEATR I BLANT A THEULUOEDD)

GWEITHDAI CELF ORIELODL

THE BUNKHOUSE BAR & MUSIC VENUE
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau · National Waterfront Museum
Cyngor Abertawe Swansea Council
Coleg Gŵyr Abertawe Gower College Swansea
menter iaith abertawe